

**CABINET**  
**23 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we trwy Webex ddydd Mercher 23 Rhagfyr, 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Sara Dulson, Dave Ledsham, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**

Y Cyngorydd: Patrick Heesom.

**72. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**73. EITEM FRYS YCHWANEGOL**

Esboniodd y Prif Weithredwr fod yr eitem hon yn cael ei hystyried fel eitem frys ychwanegol gan yr Arweinydd oherwydd yr angen i gyfathrebu'n glir ar y sefyllfa ddiweddaraf yn Sir y Fflint ar y pandemig, y cyfyngiadau a osodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a sut y byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau.

Cyhoeddwyd newid yn y cyfyngiadau yn ystod cyfnod y Nadolig, ond byddai holl wasanaethau'r Cyngor yn parhau yn ôl y bwriad. Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer ailddechrau addysg yn y Flwyddyn Newydd, ond efallai y bydd angen eu hadolygu'n agosach at yr amser. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal dros gyfnod y gwyliau fel y gellir rhannu gwybodaeth leol a rhanbarthol.

Roedd y rhaglen frechu yn dod yn ei blaen yn dda ac roedd Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn barod i weithredu fel canolfan brechu torfol. Yn ogystal, roedd canolfan frechu leol yn ardal yr Wyddgrug ar y gweill.

Y cyngor oedd i bobl y dywedwyd wrthynt am warchod eu hunain yn flaenorol i aros adref.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

74. **CYLLIDEB FLYNYDDOL LLYWODRAETH CYMRU 2021/22 A SETLIAD LLYWODRAETH LEOL DROS DRO 2021/22**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem ac egluro y byddai'r wybodaeth am y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro yn cael ei hystyried yn ofalus ac y byddai ymateb yn cael ei baratoi. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2021 gyda chynigion ar gyfer y gyllideb.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Digwyddiadau Diweddar
- Setliad Dros Dro – Penawdau
  - Codiad cyfartalog yn y Grant Cymorth Refeniw ar gyfer llywodraeth leol o 3.8% ar ôl addasiadau trosglwyddo
  - Ystod y Cyngor cynyddol gan y Cyngor o 2.0% i 5.6%
  - Roedd Sir y Fflint yn gymedrol eleni yn seiliedig ar y data demograffig a gymhwyswyd i Fformiwla Cyllido Llywodraeth Leol a byddai'n derbyn 3.8%
  - £10m ychwanegol ar gyfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar ei ben (hyd at £0.5m ar gyfer Sir y Fflint)
  - Mae'r dyraniad ar gyfer llywodraeth leol ar £176m, £104m yn llai na chyfanswm y gofyniad a gyflwynir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- **Grantiau Penodol:** rhestr o grantiau a gyhoeddwyd ac amrywiadau i fynd drwyddynt. Rhai risgiau posibl i gyllidebau craidd os bydd unrhyw ostyngiad yn y grant
- **Cyfalaf:** dyraniad digyfnewid ar gyfer llywodraeth leol. Cadarnhad y bydd y grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus yn parhau
- **Cyllid Brys Parhaus:** darpariaeth wedi'i gwneud yng nghyllideb Cymru
- **Polisi Tâl y Sector Cyhoeddus:**
  - Ni wnaeth Cyhoeddiad Adolygiad o Wariant Canghellor Trysorlys y DU unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus, oni bai am weithwyr ar gyflog is (roedd Sir y Fflint wedi cynnwys £600k yn yr amcangyfrif o gyllideb ar gyfer hyn) a gweithwyr y GIG (ddim yn berthnasol i Sir y Fflint)
  - Ni allai Llywodraeth y DU bennu trafodaethau cyflog ar gyfer llywodraeth leol yn y DU na chyflog athrawon yng Nghymru, a oedd bellach yn swyddogaeth ddatganoledig
  - Byddai angen cyllido unrhyw ddyfarniadau cyflog ychwanegol ar gyfer 2021/22 yn llawn, yn ychwanegol at lefel y Setliad
  - Manylion y Datganiad Gan y Gweinidog
  - Roedd achos CLILC am £280m yn cynnwys darpariaeth lawn ar gyfer dyfarniadau cyflog
  - Darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog i weithwyr ar gyflog is yn unol â pholisi Llywodraeth y DU
  - Dim darpariaeth gyllidebol yn yr amcangyfrif cyllideb isaf ddiwygiedig ar gyfer unrhyw ddyfarniadau cyflog pellach
- **Dadansoddiad – Effeithiau ar gyfer Sir y Fflint**

- Apeliodd Sir y Fflint at Weinidogion am ymgodiad lleiaf mewn Grant Cymorth Refeniw o 5.7% yn erbyn amcangyfrif cyllideb isaf o £16.750m (gyda darpariaeth lawn ar gyfer dyfarniadau cyflog wedi'u cyfrif cyn yr Adolygiad o Wariant)
- Pe bai'r Adolygiad o Wariant yn cael ei gymhwyso - a bod modd tynnu dyfarniadau cyflog o'r amcangyfrif cyllideb isaf, gan ei ostwng i £13.818m - yna byddai codiad mewn Grant Cymorth Refeniw o 4.1% yn ddigonol
- Ar yr amcangyfrif isaf o'r gyllideb, roedd yr ymgodiad Grant Cymorth Refeniw oddeutu £0.6m neu 0.3% yn brin
- Yn ddarostyngedig i'r rhagdybiaeth weithredol ar bolisi cyflog cenedlaethol, gallem anelu at osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar y ffigurau hyn gyda chodiad blynyddol yn y Dreth Gyngor o dan 5%. Gyda gwaith parhaus ar (a) amcangyfrifon cyllideb a (b) darpariaeth frys ar gyfer dyledion drwg gyda'r nod o gynhyrchu cyllid ychwanegol o £1.5m yn erbyn y prif risgiau agored
- **Setliad Dros Dro - Ymateb**
  - Roedd y Setliad Dros Dro bron yn ddigonol ar y lefel amcangyfrif lleiaf diwygiedig, ond gallai/dylai fod yn uwch - gyda'r ddarpariaeth ariannu wedi'i datganoli yn y Datganiad Adolygiad o Wariant diweddar - i ddiogelu cynghorau rhag risg yn ystod y flwyddyn mewn sefyllfa frys gyfnewidiol.
  - Roedd yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dod i ddiffygion o £104m o'r gofyniad cyllidebol a nodwyd gan CLILC
  - Roedd angen egluro'r polisi tâl gan y byddai unrhyw ddyfarniadau cyflog blynyddol, a drafodir yn ddiweddarach ac ar ôl y gyllideb, yn anfforddiadwy. Roedd yn rhaid cydamseru polisi tâl cenedlaethol â'r broses osod cyllideb flynyddol ac ni ddylai fod allan ohoni
  - Roedd cyllid gwaelodol yn hanfodol - a dylai fod yn arfer blynyddol yn seiliedig ar gynsail a pholisi CLILC - a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at ffigur y Setliad, nid ei draws-gymorthdal gan gynghorau uwchben y lefel gwaelodol
  - Dylid neilltuo darpariaeth ariannu ychwanegol benodol ar gyfer y risgiau ym maes gofal cymdeithasol e.e. costau comisiynu chwyddiant ansafonol a gwasanaethau plant
  - Dylid diogelu pob grant penodo a'u cysylltu â mynegai. Roedd yn ymddangos bod rhai risgiau yn y grantiau penodol a drefnwyd
  - Llywodraeth Cymru i nodi polisi clir ar Dreth y Cyngor
  - Diogelu cronfeydd Caledi a Cholli Incwm ar gyfer 2020/21 yn llawn ar gyfer Chwarteri 3 a 4
  - Llywodraeth Cymru i gefnogi cynghorau gyda thaliadau ychwanegol Chwarter 4 2020/21 yn erbyn ymrwymadau a risgiau gwasanaeth cyfredol lle mae wedi rhagamcanu tanwariant ac arian ar gael
  - Parhau gyda chronfeydd Caledi a Cholled Incwm yn 2021/22, gyda'r arian ychwanegol yn y Datganiad Adolygiad o Wariant, yn ôl yr angen

- **Cydbwyso'r Gyllideb 2021/22 - Nodau:-**

- Gosod cyllideb flynyddol gyfreithiol a chytbwys yn seiliedig ar y ffigurau a'r rhagdybiaethau hynny
- Cadw'r codiad blynyddol i Dreth y Cyngor o dan 5%
- Ychwanegu £1.5m at y gyllideb sylfaenol - yn ychwanegol at yr amcangyfrif lleiaf diwygiedig - i ddiogelu'r Cyngor rhag risgiau agored mewn (a) gofal cymdeithasol a gomisiynwyd (b) Lleoliadau y tu allan i'r Sir (c) addysg (ch) unrhyw ostyngiadau mewn grantiau penodol ar gyfer gwasanaethau gweithredol craidd

Gwnaeth y Cyngorydd Roberts sylwadau ar y risg fwyaf o ran dyfarniadau cyflog a byddai'n codi'r mater gyda CLILC.

Mynegodd y Cyngorydd Thomas ei phryderon ynghylch y grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a oedd yn cael ei leihau bob blwyddyn, er gwaethaf y pwysau ar gasglu gwastraff a oedd yn cynyddu bob blwyddyn.

Gwnaeth y Cyngorydd Jones sylwadau ar y gwaith sylweddol a wnaed ym maes gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig ond ni ddarparwyd cyllid ychwanegol.

Croesawodd y Cyngorydd Bithell y sylwadau a'r pryderon ynghylch y dyfarniadau cyflog, a chefnogodd yr angen am gyllid gwaelodol hefyd. Cefnogodd y Cyngorydd Mullin y sylwadau ar y cyllid gwaelodol hefyd, a mynegodd ei ddiolch i'r holl staff a oedd wedi gweithio'n galed yn ystod yr amser anodd hwn.

Diolchodd y Cyngorydd Banks i'r holl swyddogion a oedd wedi gweithio ar y gyllideb. Cefnogodd yr angen am gyllid gwaelodol hefyd.

Rhoddodd y Cyngorydd Roberts sicrwydd i Aelodau'r Cabinet y byddai o a'r Prif Weithredwr yn parhau i gyflwyno sylwadau priodol i CLILC a Llywodraeth Cymru. Diolchodd i swyddogion ar draws pob adran am eu gwaith a wnaed yn ystod y pandemig, a diolchodd hefyd i drigolion Sir y Fflint am ddilyn rheolau Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn nodi goblygiadau'r gyllideb ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb Flynyddol 2021/22; a
- (b) Paratoi ymateb a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â hynny.

**74. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.55am)

.....

## Y Cadeirydd